



CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT PWYLLGOR CHWILIO

CYLCH GORCHWYL
Cymeradwywyd 25 Chwefror 2020

Pwrpas y Pwyllgor

Sefydli'r y Pwyllgor Chwilio er mwyn goruchwyllo a chynghori ar faterion cysylltiedig ag aelodaeth o'r Gorfforaeth, gan gynnwys y broses recriwtio, argymhell ymgeiswyr i gael eu penodi, monitro sgiliau ac amrywiaeth, sefydlu, datblygu, perfformiad a chynllunio olyniaeth.

1. Cyfrifoldebau Gweithredol

- 1.1 Sicrhau bod anghenion aelodaeth y Gorfforaeth yn cael eu bodloni drwy chwilio am ac argymhell ymgeiswyr o safon uchel i'w penodi.
- 1.2 Pennu a goruchwyllo'r broses recriwtio a sicrwydd ar gyfer Aelodaeth Corfforaeth newydd.
- 1.3 Cyfarfod â'r holl ymgeiswyr a benodir i'r Gorfforaeth a (gan gyfeirio at geisiadau a thystlythyrau ategol) gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar yr ymgeiswyr hynny yr ystyrir eu bod yn addas i'w penodi.
- 1.4 Lle bo hynny'n briodol, argymhell ymgeiswyr addas i'w hychwanegu at y 'Rhestr a Argymhellir' i'w penodi i'r Gorfforaeth yn y dyfodol.
- 1.5 Darparu Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd ar weithgareddau'r pwyllgor er gwybodaeth.
- 1.6 Cymeradwyo polisiau a gweithdrefnau Haen 2 perthnasol fel y'u dirprwywyd gan y Bwrdd.

2. Cyfrifoldebau Cynghori

- 2.1 Adolygu cyfansoddiad a chydbwysedd aelodaeth y Gorfforaeth bob blwyddyn a gwneud argymhellion priodol i'r Bwrdd.
- 2.2 Cynghori'r Bwrdd ar anghenion aelodaeth y Gorfforaeth a pholisïau a gweithdrefnau Corfforaeth Haen 1 perthnasol.
- 2.3 Cynghori'r Bwrdd (pan fo angen) mewn perthynas â phenodiadau i rôl Cadeirydd neu Is-gadeirydd o dan y telerau a nodir yn Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth.
- 2.4 Cynghori ar gynllunio olyniaeth briodol er mwyn sicrhau ansawdd parhaus a pharhad arweinyddiaeth.
- 2.5 Cynghori ar y broses Sefydlu a Datblygu ar gyfer aelodau'r Gorfforaeth.

2.6 Cyngori ar broses yr arfarniad blynyddol o aelodau'r Bwrdd a'r Gorfforaeth.

3. Cyfrifoldebau Monitro

- 3.1 Adolygu dadansoddiad Sgiliau ac Amrywiaeth yn flynyddol mewn perthynas ag aelodaeth gyfredol y Gorfforaeth. Rhaid cyfeirio at y dadansoddiad hwn wrth ystyried recriwtio ac argymell penodiadau'r Bwrdd.
- 3.2 Adolygu data presenoldeb y Gorfforaeth yn flynyddol a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol.
- 3.3 Monitro datblygiad parhaus y Llywodraethwyr gan gynnwys cydymffurfriad cysylltiedig â gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer aelodau'r Gorfforaeth.

4. Materion Ychwanegol

- 4.1 Y Bwrdd cyfan sydd â'r awdurdod i benodi aelodau i'r Gorfforaeth, ond wrth ystyried penodiad, rhaid i'r Bwrdd ystyried cyngor y Pwyllgor hwn.
- 4.2 Dim ond fel y dirprwywyd yn benodol iddo gan y Bwrdd y mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb gweithredol.
- 4.3 Bydd y Pwyllgor yn mynd i'r afael ag unrhyw fater arall a gyfeirir at ei sylw gan y bwrdd.
- 4.4 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn gweithredu fel Clerc y Pwyllgor.
- 4.5 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r bwrdd ar weithgareddau'r Pwyllgor.
- 4.6 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn sicrhau bod copïau o'r cofnodion (neu gofnodion drafft) yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Gorfforaeth er gwybodaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Bwrdd.
- 4.7 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

Aelodaeth:

5

Yn cynnwys:

Cadeirydd/Is-gadeirydd
Pennaeth/Prif Swyddog
Gweithredol
Llywodraethwr
Annibynnol
1 Myfyriwr
Lywodraethwr

Caiff y pwyllgor ofyn cyngor proffesiynol, annibynnol a sicrhau presenoldeb unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad neu arbenigedd perthnasol yn ei gyfarfodydd.

Cworwm: 50% (3 aelod)

Amledd cyfarfodydd: Lleiafswm o ddwywaith y flwyddyn ac yn ôl yr angen